Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

**Tachwedd 2024 Canfyddiadau Arolwg Panel:**

Disgwyliad oes iach, Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd, Brechlynnau a'r dull atal trais o'r enw stopio a chwilio

Cyhoeddwyd: Mawrth 2025

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy'n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi **ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd** i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Tachwedd 2024 sy'n cwmpasu:
    - **Disgwyliad oes iach**
    - **Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd**
    - **Brechlynnau**
    - **Dull atal trais, stopio a chwilio**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.





# Trosolwg Methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022-Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio yn broses barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (yn agor mewn ffenestr newydd) ar unrhyw adeg.Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Wrth gyflwyno pob arolwg, bydd recriwtio ychwanegol wedi'i dargedu yn digwydd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, gwahoddwyd aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob dau fis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn. O fis Ebrill 2024, mae arolygon yn cael eu cynnal yn chwarterol.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg yn yr Atodiad.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a gafodd eu gwahodd i gwblhau'r arolwg a'r 2,091 gymerodd ran, ac a gwblhaodd yr arolwg ym mis Tachwedd 2024 yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

# Pwyntiau Cryno

○ Cymerodd 2,091 o bobl ran yn arolwg mis Tachwedd 2024 survey (29fed Hydref – 12fed Rhagfyr 2024).

## Disgwyliad oes iach

- Dywedodd 58% o bobl bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn.
- Dywedodd 51% o bobl fod eu hiechyd wedi bod yn flaenoriaeth uchel iddyn nhw dros y tair blynedd diwethaf.
- Gofynnwyd i bobl a oedd 17 eitem yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu ddim effaith ar eu hiechyd.

  Y tair prif effaith **gadarnhaol** oedd:
  - Mynediad i fyd natur a mannau awyr agored (74%)
  - Faint o weithgarwch corfforol maen nhw'n ei wneud (63%)
  - Y cartref maen nhw'n byw ynddo (58%)

  Y tair prif effaith **negyddol** oedd:
  - Mynediad at wasanaethau gofal iechyd (42%)
  - Eu sefyllfa ariannol (34%)
  - Cyfryngau cymdeithasol (34%)

## Brechlynnau

- Dywedodd 54% o bobl eu bod wedi clywed am feirws syncytiol anadlol (RSV).
- Dywedodd 32% eu bod wedi clywed am y brechlyn RSV.

## Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd

- Pan ofynnwyd iddynt pa wasanaeth y byddent yn cysylltu ag ef gyntaf pe bai ganddynt gyflwr iechyd a'u bod yn ansicr pa wasanaeth yr oedd ei angen arnynt, dywedodd 42% o bobl y byddent yn cysylltu â'u practis meddyg teulu. Byddai 28% yn edrych ar wefan GIG 111 Cymru.
- Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn darganfod pa wasanaethau yr oedd eu fferyllfa gymunedol leol yn eu cynnig, dywedodd 45% y byddent yn ymweld â'r fferyllfa ac yn gofyn.
- Dywedodd 62% o bobl eu bod yn gwybod am y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin.

## Dull atal trais, stopio a chwilio

- Dywedodd tua 40% o bobl eu bod yn weddol wybodus neu'n wybodus iawn ynghylch pryd y caniateir i heddwas stopio a chwilio a'r hyn sy'n digwydd yn ystod stopio a chwilio.
- Pan ofynnwyd iddynt ddewis o restr o chwe emosiwn sut y byddent yn teimlo pe baent yn cael eu stopio a'u chwilio yn unol â'r protocol, dywedodd 44% y byddent yn ofnus a dywedodd 44% y byddent yn teimlo embaras.
- O'r 19% a gafodd brofiad (yn bersonol neu fel tyst) o stopio a chwilio, dywedodd 33% eu bod yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i bobl gael cymorth iechyd meddwl ar ôl iddynt gael eu stopio a'u chwilio.


Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Disgwyliad oes iach

Yn yr adran hon, gofynnwyd sut roedd pobl yn teimlo am eu hiechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd gwell neu waeth.


## Pa mor dda yw eich iechyd yn gyffredinol?




Gwell gennyf beidio â dweud = 0%


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Pan wnaethoch chi ateb y cwestiwn blaenorol, oeddech chi'n meddwl yn fwy am eich iechyd corfforol, eich iechyd meddwl, neu'r naill a'r llall yn gyfartal?





Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%

**Dros y tair blynedd ddiwethaf, fyddech chi'n dweud bod eich iechyd corfforol wedi gwaethygu, gwella, neu aros yr un peth?**




Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%


## Dros y tair blynedd ddiwethaf, fyddech chi'n dweud bod eich iechyd meddwl wedi gwaethygu, gwella neu aros yr un peth?




Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%

# Disgwyliad oes iach

## Dros y tair blynedd ddiwethaf, faint o flaenoriaeth sydd wedi bod i chi ofalu am eich iechyd?




Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Wrth feddwl yn ôl drwy eich bywyd, pa mor bwysig ydych chi'n meddwl y bu'r canlynol wrth lunio eich cyflwr iechyd presennol?

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Rhywfaint yn bwysig | Pwysig iawn | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Y lleoedd rydych chi wedi byw ynddyn nhw (e.e. eich tai, cymuned) | 21% | 35% | 43% | |
| Yr ymddygiadau rydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw (e.e. defnydd o alcohol, ysmygu, deiet, gweithgarwch corfforol) | 16% | 37% | 46% | |
| Eich mynediad i wasanaethau iechyd (e.e. Meddygon Teulu, apwyntiadau ysbytai) | 8% | 32% | 60% | |
| Eich perthnasoedd teuluol | 12% | 29% | 58% | |
| Eich sefyllfa ariannol | 15% | 42% | 43% | |
| Y swyddi fu gennych chi | 12% | 35% | 42% | 10% |
| Argaeledd cynhyrchion afiach (e.e. bwyd, alcohol, gamblo, tybaco) | 41% | 36% | 22% | |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = Yn hafal i neu'n llai na 1%

## Ar hyn o bryd, i ba raddau y mae'r canlynol yn cael effaith negyddol, effaith gadarnhaol, neu ddim effaith ar eich iechyd?

Roedd y cwestiwn hwn yn ymdrin â 17 maes gwahanol, a gyflwynir mewn dau grŵp ar lefel unigol a lefel amgylcheddol. Mae'r tabl hwn yn dangos eitemau ar lefel unigol.

| | Effaith negyddol fawr | Effaith negyddol fach | Dim effaith | Effaith gadarnhaol fach | Effaith gadarnhaol fawr | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eich sefyllfa ariannol | 10% | 24% | 26% | 24% | 16% | |
| Eich swydd | 8% | 18% | 14% | 14% | 10% | 36% |
| Eich cyfrifoldebau gofal plant | 3% | 6% | 20% | 5% | 6% | 61% |
| Cyfrifoldebau rhoi gofal i eraill (e.e. aelodau'r teulu) | 6% | 18% | 18% | 4% | 4% | 49% |
| Eich perthnasoedd personol | 6% | 15% | 22% | 18% | 38% | |
| Faint o weithgarwch corfforol rydych chi'n ei wneud | 12% | 16% | 9% | 27% | 36% | |
| Y mathau o fwyd rydych chi'n eu bwyta | 7% | 22% | 16% | 25% | 29% | |
| Faint o alcohol rydych chi'n ei yfed | 3% | 17% | 40% | 6% | 3% | 30% |
| Y cartref rydych chi'n byw ynddo | 4% | 13% | 24% | 25% | 33% | |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = Yn hafal i neu'n llai na 1%

# Disgwyliad oes iach

## Ar hyn o bryd, i ba raddau y mae'r canlynol yn cael effaith negyddol, effaith gadarnhaol, neu ddim effaith ar eich iechyd?

Roedd y cwestiwn hwn yn ymdrin â 17 maes gwahanol, a gyflwynir mewn dau grŵp ar lefel unigol a lefel amgylcheddol. Mae'r tabl hwn yn dangos eitemau ar lefel amgylcheddol.

| | Effaith negyddol fawr | Effaith negyddol fach | Dim effaith | Effaith gadarnhaol fach | Effaith gadarnhaol fawr | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eich mynediad i wasanaethau gofal iechyd | 19% | 23% | 20% | 21% | 17% | |
| Technoleg ar gyfer monitro iechyd (e.e. ffitrwydd, pwysedd gwaed) | 2% | 5% | 49% | 31% | 12% | |
| Cyfryngau cymdeithasol | 8% | 26% | 43% | 15% | 4% | 3% |
| Yr amgylchedd (e.e. ansawdd awyr, newid hinsawdd) | 5% | 24% | 38% | 18% | 15% | |
| Eich mynediad i natur a lle awyr agored (e.e. parciau) | 2% | 5% | 18% | 27% | 47% | |
| Cludiant ar gael a rhwydweithiau teithio | 9% | 19% | 49% | 15% | 8% | |
| Ymddygiad cwmnïau (e.e. marchnata a hyrwyddo cynhyrchion) | 9% | 24% | 60% | 5% | 1% | |
| Eich mynediad i offer ffitrwydd | 6% | 12% | 42% | 19% | 21% | |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = Yn hafal i neu'n llai na 1%


# Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd

Yn yr adran hon, gofynnwyd i bobl am eu hymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd yng Nghymru.

# Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd



**Dychmygwch fod gennych chi gyflwr iechyd, a'ch bod chi'n ansicr pa wasanaeth iechyd oedd ei angen arnoch. Pa un o'r canlynol byddech chi'n fwyaf tebygol o'i wneud?** *(Un ymateb yn unig)*





Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%

# Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Dychmygwch fod angen i chi ddarganfod pa wasanaethau mae eich fferyllfa gymunedol leol yn eu cynnig, pa un o'r canlynol byddech chi'n ei wneud?** *(Un ymateb yn unig)*




Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Pa rai o'r cyflyrau iechyd canlynol, os o gwbl, byddech chi'n mynd yn uniongyrchol i'ch fferyllfa gymunedol leol i gael help gyda nhw?


| | Byddwn | Na fyddwn | Amherthnasol |
|---|---|---|---|
| Llwnc tost | 72% | 28% | |
| Clust dost neu haint clust | 63% | 36% | |
| Haint y llwybr wrinol (UTI) | 38% | 61% | |
| Atalcenhedlu brys (pilsen y bore trannoeth) | 24% | 8% | 67% |
| Atalcenhedlu rheolaidd | 14% | 22% | 64% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = 1%

# Ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd

**Mae cynllun o'r enw Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yn cael ei gynnig gan fferyllfeydd cymunedol. O dan y cynllun, gall pobl dderbyn cyngor a thriniaeth am ddim gan y GIG ar gyfer 27 o wahanol afiechydon megis brech yr ieir, clefyd y gwair, llyngyr edau, llindag a dafadennau.**

**Cyn heddiw, oeddech chi'n gwybod bod fferyllfeydd cymunedol yn cynnig y gwasanaeth hwn?**




Gwell gennyf beidio â dweud = 0%

**Yn 2023, gwnaed newidiadau i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir gan optometryddion (sy'n arbenigwyr llygaid hyfforddedig iawn) mewn optegwyr y stryd fawr yng Nghymru.**

**Pa rai o'r gwasanaethau canlynol oeddech chi'n gwybod y gallech chi weld optometrydd amdanyn nhw?**

| | |
|---|---|
| Profion llygaid arferol | 89% |
| Pryder am gyflyrau llygaid difrifol (e.e. glawcoma) | 64% |
| Asesiad gweledigiad isel a chymhorthion golwg isel | 56% |
| Gofal llygaid brys (e.e. llygaid coch, poenus, brychau, goleuadau fflachio neu golli golwg sydyn) | 54% |
| Gofal llygaid brys | 43% |
| Dim un o'r uchod | 7% |
| Gwell gen i beidio â dweud | 1% |

Gwell gennyf beidio â dweud = 1%

**Mae meddygfeydd meddygon teulu yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan wahanol weithwyr iechyd proffesiynol yn dibynnu ar anghenion y claf.**

**Cyn heddiw, pa un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol canlynol oeddech chi'n gwybod y gallech chi ei weld mewn meddygfa meddyg teulu?**


| | Oeddwn | Nac oeddwn |
|---|---|---|
| Nyrs | 95% | 4% |
| Ymarferydd nyrsio (e.e. yn gallu rhagnodi triniaeth, archebu profion, a darparu diagnosis) | 85% | 15% |
| Fferyllydd | 50% | 49% |
| Ffisiotherapydd | 39% | 60% |
| Ymarferydd iechyd meddwl | 39% | 60% |
| Parafeddyg | 17% | 82% |

Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = Yn hafal i neu'n llai na 1%

# Brechlynnau


Yn yr adran hon, gofynnwyd am ymwybyddiaeth pobl o'r feirws syncytiol anadlol (RSV), a elwir weithiau yn Bronciolitis. Mae RSV yn salwch firaol sy'n achosi symptomau sy'n debyg i annwyd cyffredin (e.e. trwyn yn rhedeg, peswch, twymyn, gwichian). Mae'r feirws fel arfer yn digwydd yn y gaeaf a dechrau'r gwanwyn ac yn rhoi pwysau ar y GIG.

## Cyn heddiw, a oeddech chi wedi clywed am y feirws syncytaidd anadlol (RSV)?




Gwell gennyf beidio â dweud: = Llai na 1%


**Cafodd brechlyn i amddiffyn rhag salwch difrifol a achoswyd gan RSV ei lansio ar gyfer grwpiau penodol o bobl ym mis Medi. Cyn heddiw, oeddech chi wedi clywed am y brechlyn hwn?**




Gwell gennyf beidio â dweud = Llai na 1%

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi clywed am y brechlyn RSV (n = 674; heb ei bwysoli)

**Ble clywsoch chi am y brechlyn newydd RSV? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**




Roedd ymatebion testun eraill yn cynnwys: Teulu, ffrindiau a chydweithwyr; eu gweithle a'u proffesiwn; cyfryngau a newyddion amhenodol.
Gwell gennyf beidio â dweud = 2%

# Dull atal trais , stopio a chwilio

Gall trais a throsedd effeithio ar iechyd a lles pobl. Gofynnwyd am farn pobl ar ddull atal trais, lle os oes gan swyddog heddlu sail resymol i amau bod rhywun yn cario arf, eiddo wedi'i ddwyn, neu rywbeth y gellid ei ddefnyddio i gyflawni trosedd, gallant stopio a chwilio'r person. Gelwir hyn yn 'stopio a chwilio Adran 1'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n adlewyrchu'n gywir sut rydych chi'n teimlo am 'stopio a chwilio' ym maes plismona?

| | |
|---|---|
| Rwy'n credu bod angen stopio a chwilio ac y dylai'r heddlu barhau i'w ddefnyddio fel y maent | 50% |
| Rwy'n credu bod angen stopio a chwilio ond nid yw'r heddlu'n ei ddefnyddio'n briodol | 36% |
| Rwy'n credu bod stopio a chwilio yn ddiangen a dylai'r heddlu roi'r gorau i'w ddefnyddio | 4% |
| Ddim yn gwybod | 10% |

Gwell gennyf beidio â dweud = 1%

# Dull atal trais , stopio a chwilio

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn meddwl bod **angen** stopio a chwilio, ond nad yw'r heddlu'n ei ddefnyddio'n briodol (n = 764; heb ei bwysoli).

**Pam rydych chi'n meddwl nad yw'r heddlu'n defnyddio pwerau stopio a chwilio yn briodol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

| | |
|---|---|
| 79% | Dydyn nhw ddim yn ei ddefnyddio yn yr un ffordd ar gyfer pob grŵp o bobl |
| 46% | Maen nhw'n ei ddefnyddio pan nad oes sail resymol dros wneud hynny |
| 10% | Nid ydyn nhw'n ei ddefnyddio'n ddigonol |
| 13% | Maen nhw'n ei ddefnyddio'n ormodol |
| 2% | Arall |

Gwell gennyf beidio â dweud = 1%

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn meddwl bod stopio a chwilio yn **ddiangen** ac y dylai'r heddlu roi'r gorau i'w ddefnyddio (n = 82; heb ei bwysoli).


**Mewn ychydig eiriau, dywedwch wrthym pam rydych yn credu bod stopio a chwilio yn ddiangen ac y dylai'r heddlu roi'r gorau i'w ddefnyddio.**

Yn gyntaf, cafodd ymatebion testun agored eu codio i'r ymatebion a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn blaenorol a nodwyd codau ychwanegol.

| | |
|---|---|
| 50% | Dydyn nhw ddim yn ei ddefnyddio yn yr un ffordd ar gyfer pob grŵp o bobl |
| 17% | Maen nhw'n ei ddefnyddio pan nad oes sail resymol dros wneud hynny |
| 9% | Ymddygiad yr heddlu (gan gynnwys rhagfarn) |
| 7% | Ymyriad i breifatrwydd |
| 6% | Ddim yn credu ei fod yn ymyriad effeithiol i atal trais |
| 15% | Arall |

# Dull atal trais , stopio a chwilio

## Pa mor wybodus, os o gwbl, byddech chi'n dweud eich bod chi am bob un o'r canlynol... ?




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = 1%

# Dull atal trais , stopio a chwilio

Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Cyn heddiw, a oeddech chi'n gwybod unrhyw un o'r ffeithiau canlynol am yr hyn sy'n digwydd yn ystod stopio a chwilio Adran 1?

| | Oeddwn | Nac oeddwn |
|---|---|---|
| Mae'n rhaid i'r heddwas esbonio pam mae person wedi cael ei stopio a beth mae'n disgwyl dod o hyd iddo yn ystod y chwiliad | 73% | 25% |
| Os yw'n bosibl, dylai'r person gael ei chwilio gan swyddog heddlu o'r un rhyw | 68% | 29% |
| Gellir gofyn i berson dynnu eu cot, menig neu siaced yn ystod y chwiliad. Os gofynnir iddyn nhw dynnu unrhyw beth arall, gan gynnwys dillad crefyddol, rhaid eu tynnu allan o olwg y cyhoedd | 51% | 46% |
| Mae'n rhaid i'r heddwas ddweud ei enw ac enw'r orsaf heddlu y maen nhw wedi'i lleoli ynddi | 47% | 51% |
| Mae hawl gan berson gael ffurflen stopio a chwilio | 44% | 53% |


Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = Yn hafal i neu'n llai na 3%

## Oeddech chi'n gwybod y canlynol am stopio a chwilio Adran 1?

**Nid yw'r chwiliad yn wirfoddol (h.y. ni all person wrthod cael ei stopio a'i chwilio)**




**Ni chaiff yr heddlu stopio a chwilio rhywun yn unig ar sail eu hethnigrwydd**





**Ni chaiff yr heddlu stopio a chwilio rhywun un unig am eu bod nhw eisoes yn hysbys i'r heddlu**




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad = Yn hafal i neu'n llai na 4%

# Dull atal trais , stopio a chwilio

**Ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod erioed wedi cael eich stopio a'ch chwilio neu a ydych chi erioed wedi gweld rhywun yn cael ei stopio a'i chwilio? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**




Gwell gennyf beidio â dweud = 1%

# Dull atal trais , stopio a chwilio

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cael profiad o stopio a chwilio, naill ai'n bersonol neu fel tyst (n = 403; heb ei bwysoli)

**Pa fath o gymorth, os o gwbl, ydych chi'n credu y byddai'n ddefnyddiol i bobl ei gael ar ôl iddyn nhw gael eu stopio a'u chwilio? Dewiswch bob un sy'n berthnasol**

| | |
|---|---|
| Deall sut i gael copi o'u ffurflen stopio a chwilio | 65% |
| Deall y weithdrefn gwyno | 64% |
| Cymorth cyfreithiol | 42% |
| Cymorth anffurfiol (e.e. teulu a ffrindiau) | 35% |
| Cymorth iechyd meddwl | 33% |
| Arall | 8% |
| Dydw i ddim yn credu y byddai angen unrhyw gymorth (Ymateb unigryw) | 11% |
| Ddim yn gwybod (Ymateb unigryw) | 7% |

Gwell gennyf beidio â dweud = 0%

**Dychmygwch eich bod chi wedi cael eich stopio a'ch chwilio gan heddwas, a esboniodd pam roeddech wedi cael eich stopio a'r hyn yr oedden nhw'n disgwyl dod o hyd iddo cyn gwneud y chwiliad, ac wedi ateb unrhyw gwestiynau oedd gennych chi. Pa un o'r emosiynau canlynol ydych chi'n meddwl y byddech chi'n eu teimlo? Dewiswch bob un sy'n berthnasol**




Gwell gennyf beidio â dweud = 1%

# Dull atal trais , stopio a chwilio

## Ar raddfa o 0 i 10, lle  0  yw dim o gwbl a 10 yw yn hollol, faint ydych chi'n ymddiried yn yr heddlu?

| | |
|---|---|
| 0 – Ddim o gwbl | 5% |
| 1 | 2% |
| 2 | 4% |
| 3 | 7% |
| 4 | 6% |
| 5 | 15% |
| 6 | 14% |
| 7 | 19% |
| 8 | 17% |
| 9 | 7% |
| 10 - Yn hollol | 4% |

Y sgôr gymedrig a gyfrifwyd gan y rhai a ymatebodd gydag ymateb rhwng 0 a 10 oedd 5.9 (gwyriad safonol = 2.44).
Gwell gennyf beidio â dweud = 1%

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus *Cymru* | Time to Talk Public Health *Wales*

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

## Eisiau bod yn rhan o'r Panel?

Mae recriwtio i Banel Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.




**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

icc.gig.cymru

SiaradICCymru@wales.nhs.uk

02920 227744

Iechyd Cyhoeddus Cymru

@IechydCyhoeddus

**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol**
**Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC)**
**ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Lewis Brace

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Polisi a Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: Dr Sumina Azam, Dr Rebecca Hill, Carys Dale

Tîm Cyfathrebu: Daniel Owens, Chris Jones, Rebecca Hopkins, Danny Donovan, Lucy Omnet, Chloe Buckley, Angharad Willis

Grŵp Cynghori Traws-Sefydliadol: Amy Burgess, Bethan Bowden, Susan Belfourd, Giles Greene, Emily van de Venter, Chris Roberts (Llywodraeth Cymru) and Semele Mylona (Llywodraeth Cymru)

**Datblygu'r Holiadur**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Tachwedd 2024 mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg

Dulliau

# Demograffeg

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 4,005 | | Sample arolwg Tachwedd 2024 N = 2,091 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 1,583 | 40% | 1,017 | 49% |
| | Benyw | 51% | 2,376 | 59% | 1,053 | 50% |
| | Arall | - | 46 | 1% | 21 | 1% |
| Oedran (blynyddoedd) | 16-29 | 21% | 670 | 17% | 508 | 24% |
| | 30-49 | 29% | 1,636 | 41% | 653 | 31% |
| | 50-69 | 31% | 1,159 | 29% | 563 | 27% |
| | 70+ | 19% | 540 | 13% | 367 | 18% |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Mwyaf) | 19% | 645 | 16% | 328 | 16% |
| | 2 | 20% | 769 | 19% | 382 | 18% |
| | 3 | 21% | 793 | 20% | 424 | 20% |
| | 4 | 21% | 855 | 21% | 464 | 22% |
| | 5 (Lleiaf) | 20% | 943 | 24% | 493 | 24% |

Nodwch. Data poblogaeth o Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Canol 2020) (yn agor mewn ffenestr newydd); Data cwintel amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) (yn agor mewn ffenest newydd).

Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn pedwar arolwg yn olynol, mae 495 o bobl wedi cael eu tynnu oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

# Demograffeg

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 4,005 | | Sample arolwg Tachwedd 2024 N = 2,091 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Gwyn | 95% | 3,843 | 96% | 2,000 | 96% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 1% | 65 | 2% | 32 | 2% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 2% | 56 | 1% | 29 | 1% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 1% | 15 | Llai na 1% | 14 | 1% |
| | Ethnigrwydd arall | 1% | 15 | Llai na 1% | 11 | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | - | 11 | Llai na 1% | 5 | Llai na 1% |
| Bwrdd Iechyd | BIP Aneurin Bevan | 19% | 723 | 18% | 365 | 19% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 22% | 735 | 18% | 405 | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 16% | 784 | 20% | 399 | 16% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 14% | 575 | 14% | 298 | 14% |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12% | 558 | 14% | 281 | 12% |
| | BI Addysgu Powys | 4% | 154 | 4% | 109 | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 12% | 476 | 12% | 234 | 12% |

Nodwch. Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ethnigrwydd (yn agor mewn ffenest newydd) a gafwyd gan Stats Cymru ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn wyn. Amcangyfrifon poblogaeth gan fyrddau iechyd lleol (yn agor mewn ffenest newydd) wedi'u casglu o Stats Cymru. BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol; BI: Bwrdd Iechyd.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb, gydag amcangyfrif o gyfraddau ymateb i bob arolygon i fod yn uchafswm o 50%. I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'r arolygon.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.
- Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect (yn agor mewn ffenest newydd).

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau' holiadur trwy'r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau'r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Mae'r holiaduron yn cynnwys cwestiynau sydd ag un ymateb a sawl ymateb (h.y. dewiswch bob un sy'n berthnasol). Pan fo cwestiwn yn un â sawl ymateb a'i fod yn cynnwys opsiwn un ymateb yn unig sy'n golygu mai dim ond yr opsiwn hwnnw y gellid ei ddewis, caiff hyn ei gydnabod ar y graff neu'r tabl.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac fe'u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy'n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol.
- Ymgymerwyd â recriwtio wedi'i dargedu ychwanegol yn ystod arolwg Tachwedd 2024, a chomisiynwyd 400 o gyfweliadau wyneb yn wyneb ychwanegol. O'r rhain, dewisodd 209 o gyfranogwyr ymuno â'r panel.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr (N = 2,091) a gwblhaodd arolwg mis Tachwedd drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1,341 | 64% |
| Dros y ffôn | 222 | 11% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 299 | 14% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 229 | 11% |

Cwblhaodd y cyfranogwyr (N = 2,091) arolwg mis Tachwedd drwy'r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1,506 | 72% |
| Dros y ffôn | 84 | 4% |
| Wyneb yn wyneb | 501 | 24% |